# Trwyddedu Morol Penderfyniad Cydsyniad Asesu Effaith Amgylcheddol

## 1. Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 22 – Penderfyniad Cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol

**1.1. Teitl:** Datblygiad Marina Martello Quays

**1.2 Cymeradwyaeth Reoleiddiol:** Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd)

**1.3 Gweithredwyr**: Martello Quays Limited

**1.4 Rhif Cais y Drwydded Forol:**CDRML1457

**1.5 Lleoliad:** Doc Penfro, Sir Benfro

## 2. Diben

**2.1** Mae'r ddogfen hon yn cynnwys Penderfyniad Cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol o dan Reoliad 22 Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd) (Rheoliadau Gweithiau Morol), o ran cais am Drwydded Forol (cyfeirnod: CDRML1457) a gyflwynwyd gan Martello Quays Limited. Ategwyd y cais gan Ddatganiad Amgylcheddol. Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi ystyried y cais a'r wybodaeth a gyflwynwyd i'w ategu, ac rydym bellach yn gallu gwneud Penderfyniad Cydsyniad Asesu Effaith Amgylcheddol ar gyfer Martello Quays Limited.

**2.2.** Yn unol â Rheoliad 22 y Rheoliadau Gweithiau Morol, mae Tîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr awdurdod priodol, wedi ystyried y cais, y datganiad amgylcheddol, a sylwadau gan gyrff ymgynghori ac aelodau o'r cyhoedd, ac wedi rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth berthnasol. Yn dilyn casgliad a wnaed gan Asesiad Sgrinio dros Ffiniau, penderfynwyd na fyddai'n rhaid ymgynghori â gwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## 3. Cais

3.1 Martello Quays Limited yw'r ymgeisydd, a enillodd cais caffael i adeiladu'r datblygiad ar ran Grŵp Cleient. Mae'r Grŵp Cleient yn cynnwys Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, Ystad y Goron, a Llywodraeth Cymru.

3.2 Mae'r cais ar gyfer datblygiad marina yn Noc Penfro, Sir Benfro. Bydd y datblygiad yn cynnwys:

- Morgloddiau perimedr
- Strwythur loc mynedfa
- Basn marina
- Adfer doc sych y Stryd Flaen
- Pontynau ac angorfeydd
- Carthu cyfalaf o’r sianel sy’n arwain at y loc a basn y marina
- Ailraddio’r deunydd yn y marina
- Gwaith carthu cynnal a chadw

## 4. Y Datganiad Amgylcheddol – Rheoliadau Gweithiau Morol 12 (1) (d)

**4.1** Roedd Datganiad Amgylcheddol Marina Martello Quays (2007) yn amlinellu effeithiau posibl y prosiect arfaethedig. Fodd bynnag, nid ystyriwyd ei fod yn ddigonol, a chyflwynwyd Datganiad Amgylcheddol Adendwm (2013) dilynol er mwyn ychwanegu at y gwreiddiol. Ystyrir bod y Datganiad Amgylcheddol ynghyd â’r Datganiad Amgylcheddol Adendwm yn bodloni gofynion Rheoliad 12 (1)(d) ac Atodlen 3 y Rheoliadau Gweithiau Morol.

## 5. Hysbysiadau Cyhoeddus – Y Rheoliadau Gweithiau Morol, Rheoliad 16(2)(g)

**5.1** Gwnaed hysbysiadau i'r cyhoedd er mwyn hysbysu partïon â diddordeb am y cais. Cyhoeddwyd y dogfennau cais fel a ganlyn:

- Cyhoeddwyd hysbysiad cyhoeddus a gyfieithwyd yn y Western Telegraph ar 8 Gorffennaf 2015 ac 15 Gorffennaf 2015.
- Roedd y dogfennau cais ar gael i'r cyhoedd yn: Llyfrgell Doc Penfro, Stryd y Dŵr, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DW am 49 diwrnod yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus cyntaf.

**5.2** Derbyniwyd tri sylw gan y cyhoedd.

## 6. Ymgynghoriad – Y Rheoliadau Gweithiau Morol, Rheoliad 17(1)(a) (iv)

**6.1** Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cais am Drwydded Forol ar 16 Gorffennaf 2015 am gyfnod o 42 diwrnod, gydag amrywiaeth o ymgynghoreion.

**6.2** Gwnaethpwyd sylwadau gan y sefydliadau canlynol:

- Cyfoeth Naturiol Cymru, CEFAS, Ystad y Goron, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Trinity House, y Swyddog Bioamrywiaeth Lleol, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau a'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

**6.3** Tybiwyd nad oedd sylwadau i'w gwneud gan ymgynghoreion nad oeddent wedi ymateb.

## 7. Safleoedd a Warchodir gan Ewrop a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

**7.1** Cynhaliwyd prawf o'r effaith sylweddol debygol a'r effeithiau sylweddol posibl ar nodweddion y Safleoedd Ewropeaidd (Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro ac Ardal Cadwraeth Arbennig bosibl Gorllewin Cymru) a phenderfynwyd nad oedd modd ei ddiystyru. Cynhaliwyd Asesiad Priodol o ganlyniad i hyn.

**7.2** Daeth yr Asesiad Priodol i'r casgliad, gan ystyried y cyngor a dderbyniwyd gan gynghorwyr perthnasol safleoedd a ddiogelir, na fyddai'r prosiect yn cael effaith sylweddol ar gyfanrwydd unrhyw Safle a Warchodir gan Ewrop, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, ar yr amod bod yr amodau, y rhwystrau, a'r mesurau lliniaru ar y drwydded forol yn cael eu dilyn.

**7.3** Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys manylion pellach.

**7.4** Yn dilyn asesiad gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r datblygiad yn debygol o ddifetha'r cyrff dŵr a nodwyd.

**7.5** Mae'r asesiad gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cynnwys manylion pellach.

## 8. Materion i'w hystyried mewn perthynas â'r Datganiad Amgylcheddol, y cais am Drwydded Forol, a'r sylwadau a dderbyniwyd

**8.1** Wrth i ni wneud Penderfyniad Cydsyniad Asesu Effaith Amgylcheddol Rheoliad 22, gwnaethom ystyried y materion sydd wedi eu nodi ar ôl ystyried y Datganiad Amgylcheddol, sylwadau gan gyrff ymgynghori, ac unrhyw wybodaeth ategol ganlyniadol a roddwyd mewn ymateb gan yr ymgeisydd.

**8.2** Y prif faterion a godwyd yn dilyn yr ymgynghoriad ar y cais oedd:

- Colli morwellt a chynefinoedd
- Carthu a samplu gwaddodion
- Sŵn o dan y Dŵr
- Archaeoleg
- Llywio
- Ymyrraeth â defnyddwyr môr eraill

**8.3** Mae'r Tîm Trwyddedu Morol o'r farn bod yr holl faterion a nodwyd wedi derbyn sylw digonol mewn trafodaethau â'r ymgeisydd a, lle bo'n briodol, gosodwyd amodau ar y drwydded forol.

## 9. Gwerthusiad Rheoleiddio a Phenderfyniad Cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol

9.1 Wrth ystyried y cais ar gyfer datblygu marina Martello Quays a'r gwaith carthu cysylltiedig yn Noc Penfro, Sir Benfro, mae'r canlynol wedi cael eu hystyried:

- Y Datganiad Amgylcheddol a'r Datganiad Amgylcheddol Adendwm, gan gynnwys y mesurau lliniaru arfaethedig;
- Darpariaethau perthnasol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009; ac
- Y sylwadau a dderbyniwyd.

9.2 Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi penderfynu bod effeithiau amgylcheddol y datblygiad morol wedi cael eu nodi, eu disgrifio a'u hasesu'n ddigonol, ac y gellir sicrhau mesurau lliniaru a fyddai'n ddigonol i alluogi cais, CDRML1547, i gael ei gymeradwyo.

## 10. Cymeradwyo

**Cynhyrchwyd gan:** Katherine Route-Stephens – Tîm Trwyddedu Morol

Dyddiad: 16 Chwefror 2017

**Cymeradwywyd gan:** Eleanor Smart – Uwch-arweinydd Tîm , Trwyddedu Morol

Dyddiad: 14 Mawrth 2017